



Gweinyddiaeth CYFIAWNDER

Deddf Iawndal 1996: Cyfradd y Disgownt Adolygu'r Fframwaith Cyfreithiol

Crynodeb gweithredol

Bwriad dyfarnu iawndal yw digolledu hawlwyrr am y colledion y maent wedi'u cael o ganlyniad i weithredoedd anghyfreithlon. Mae'r egwyddor hon o iawndal llawn – dim mwy, dim llai – yn un o gonglfeini'r gyfraith iawndal. Ond, nid yw'n gysyniad manwl-gywir. Yn y papur hwn, rydym yn delio ag un o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar i ba raddau y bydd y dyfarniad yn darparu iawndal llawn: cyfradd y disgownt.

Rhaid i iawndal a roddir fel cyfandaliad (*lump sum*) ar gyfer colled ariannol yn y dyfodol, megis colli enillion, cost triniaeth feddygol a chost gofal mewn achosion anafiadau personol, gael ei addasu i ystyried yr incwm y bydd y cyfandaliad o bosibl yn ei gynhyrchu cyn y bydd yn cael ei wario. Gwneir yr addasiad hwn, a all effeithio'n sylweddol ar faint y dyfarniad, drwy ddefnyddio cyfradd disgownt.

Ar hyn o bryd mae cyfradd y disgownt y mae'n rhaid i'r llysoedd ei hystyried yn cael ei hadolygu. Ond mae'n 2.5% mewn termau real. Mae'r gyfradd yn cael ei gosod yn unol ag adran 1 o Ddeddf Iawndal 1996 yn unol â'r canllawiau a sefydlwyd gan Dŷ'r Arglwyddi yn achos *Wells v Wells* gan yr Arglwydd Ganghellor yng Nghymru a Lloegr, Gweinidogion yr Alban yn yr Alban a'r Adran Cyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon. Newidiwyd y gyfradd ddiwethaf yn 2002 yn yr Alban ac yn 2001 yng ngweddill y Deyrnas Unedig.

Mae cyfradd y disgownt yn rhagweld yr enillion a fydd yn cael eu hennill. Bydd yr enillion yn amrywio yn ôl y mathau o fuddsoddiadau sy'n cael eu hystyried. Felly, mae cyfrifo cyfandaliadau iawndal ar gyfer colled ariannol yn y dyfodol yn gorfod cynnwys elfen o ragfynegi ynghylch yr enillion a geir o fuddsoddiadau. Bydd y rhagfynegiadau hyn i raddau mwy neu lai bron yn sicr yn wallus. Hefyd, bydd yn rhaid gwneud rhagdybiaethau ynghylch y mathau o fuddsoddiadau sy'n briodol i'w hystyried ar gyfer y dibenion hyn. Y cwestiwn yw pa elfen o risg y disgwylir i ddiodefwyr anaf personol ei chymryd.

Ar hyn o bryd, mae'r gyfradd ddisgownt yn cael ei phennu yn ôl cyfraddau'r enillion y gellir eu disgwyl ar rai mathau o fuddsoddiadau diogel. Fodd bynnag, mae tystiolaeth nad yw'r rhai sy'n derbyn y cyfandaliadau hyn yn buddsoddi yn y ffordd ofalus y mae'r canllawiau'n ei rhagweld. Yn hytrach, mae'r dystiolaeth gychwynnol yn nodi eu bod fel petai'n buddsoddi mewn portffolios cymysg, gan gynnwys buddsoddiadau risg uwch. Gall nifer o ffactorau fod yn gyfrifol am hyn. Ond efallai ei fod yn awgrymu y gall y paramedrau cyfreithiol presennol ar gyfer gosod y gyfradd arwain at gyfradd sy'n rhy isel. Byddai hyn yn arwain at roi gormod o iawndal i hawlwyrr a chost ychwanegol i ddiffynyddion a'r rheini sy'n ariannu'r iawndal. Gallai'r costau diangen hyn gynyddu'r baich ar drethdalwyr a defnyddwyr yn annheg gan mai nhw yn y pendraw sy'n gorfod ariannu'r taliadau gan gyrff gwladol ac yswirwyr preifat. I'r gwrthwyneb, os yw'r gyfradd yn rhy uchel, diodefwyr anafiadau personol anghyfreithlon fydd yn dioddef.

Ond, gellir osgoi'r ansicrwydd cynhenid ynghylch a fydd cyfandaliad yn digolledu'n llawn y sawl a anafwyd, sydd o leiaf yn rhannol i'w briodoli i'r defnydd o gyfradd ddisgownt, oherwydd gellir cymryd yr iawndal i gyd neu'n rhannol fel taliadau cyfnodol i dalu am y colledion wrth iddynt godi. Wrth gwrs, mae'n rhaid ariannu'r taliadau hyn ac mae iddynt eu manteision a'u hanfanteision ond maent yn osgoi'r problemau sydd ynghlwm wrth ddefnyddio cyfradd ddisgownt.

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw edrych ar ddau brif fater.

Yn gyntaf, a yw'r paramedrau cyfreithiol sy'n rheoli'r ffordd y mae cyfradd y disgownt yn cael ei chyfrifo ar hyn o bryd yn darparu cyfradd sydd mor 'gywir' ag y dylai fod yn rhesymol er mwyn i'r sawl sydd wedi'i anafu gael ei ddigolledu'n llawn ond heb dderbyn gormod o iawndal neu ddim digon. Yr opsiynau yw cadw'r gyfraith bresennol neu newid y gyfraith er mwyn gallu pennu'r gyfradd drwy ystyried buddsoddiadau risg uwch, a fyddai'n arwain at gyfradd ddisgownt uwch a byddai disgwyl iddi ddarparu cyfandaliadau is nag o dan y gyfraith bresennol. Nid ydym yn nodi'r dewis sydd orau gennym ynghylch beth ddylai'r paramedrau cyfreithiol fod.

Yn ail, oherwydd y problemau posibl ynghylch pa mor ddigonol yn y tymor hir yw cyfandaliadau, mae'r papur yn ystyried a oes achos dros annog y defnydd o daliadau cyfnodol. Er mwyn ateb y cwestiwn hwn bydd yn rhaid deall y rhesymau pam mae hawlwr yn dewis neu'n peidio â dewis taliadau cyfnodol ar hyn o bryd, a chanlyniadau unrhyw newid posibl. Os nad oes achos dros newid, y canlyniad fydd gadael y gyfraith heb ei newid. Ond, ar y llaw arall, os yw'n ymddangos bod achos dros newid, bydd yn rhaid i'r newidiadau priodol gael eu diffinio a bydd yn rhaid ystyried canlyniadau'r newidiadau hynny. Ar hyn o bryd, nid ydym yn ffafrio un canlyniad ar draul y llall.

Bydd yr ail fater hwn yn cael ei hystyried yn bennaf yng nghyd-destun cyfraith Cymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon yn unig. O ran yr Alban, mae ystyried y mater hwn wedi'i gyfyngu i'r graddau y gellir gwneud gorchymyn taliadau cyfnodol ond dim ond gyda chaniatâd y partïon cysylltiedig.

Rydym yn gofyn am sylwadau ar y ddau fater hyn a materion cysylltiedig ac yn gofyn am ymatebion i nifer o gwestiynau amdanynt. Rydym hefyd yn gofyn am sylwadau ar effaith newidiadau posibl i'r gyfraith o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, yn economaidd ac o ran sut y gallai'r newidiadau effeithio ar unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Gogledd Iwerddon 1998.

Rydym yn croesawu sylwadau yn gyffredinol neu yng nghyswllt rhannau penodol o'r Deyrnas Unedig yn unig.